

Newyddlen demograffeg Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2020

Amcangyfrifon aelwydydd, canol 2019

Cyhoeddwyd y datganiad ystadegol [Amcangyfrifon aelwydydd: canol 2019](#) ddydd Mawrth, 29 Medi. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am yr amcangyfrif o nifer yr aelwydydd yn ôl y math o aelwyd, poblogaeth a maint cyfartalog yr aelwyd. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer canol 2019, a gyhoeddwyd gyntaf ddydd Mercher, 6 Mai.

Rhwng canol 2018 a chanol 2019, cynyddodd yr amcangyfrif o nifer yr aelwydydd yng Nghymru tua 9,950 (neu 0.7%), i 1.37 miliwn. Roedd y cynnydd cyffredinol o ganlyniad i aelwydydd un person a dau berson yn bennaf, a'r mathau hynny o aelwydydd yw'r rhai mwyaf cyffredin yng Nghymru o hyd, yn seiliedig ar yr amcangyfrifon hyn.

Ar lefel Cymru gyfan, mae'r amcangyfrif o boblogaeth aelwydydd preifat wedi cynyddu tua 13,800 rhwng canol 2018 a chanol 2019. Mae'r amcangyfrif o faint cyfartalog aelwydydd yng Nghymru wedi bod yn lleihau'n raddol. Yng nghanol 2019 yr amcangyfrif o faint cyfartalog aelwyd yng Nghymru oedd 2.26 person fesul aelwyd o'i gymharu â 2.52 person fesul aelwyd yng nghanol 1991.

Amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol ac aelwydydd ar sail 2018

Bwriedir cyhoeddi amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol ac aelwydydd ar sail 2018 ar ddechrau 2021 (i'w gadarnhau).

Gweminarau Cyfrifiad 2021

Cynhelir Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr ddydd Sul 21 Mawrth 2021.

Yn ddiweddar, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi dechrau cynnal cyfres o weminarau sy'n rhoi golwg fanwl ar agweddau penodol ar gyflawni Cyfrifiad 2021. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys:

- Designing for Quality in Census 2021
- Addressing for Census 2021
- Maximising Response in Census 2021
- Estimation and Adjustment in Census 2021

- Quality Assuring the Census 2021 results
- Census 2021 Outputs

Ewch i [wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Ymgynghoriad ar Ddaeryddiaeth Cyfrifiad 2021

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cwblhau cynlluniau ar gyfer rhannu ystadegau'r Cyfrifiad ac mae ganddi bolisi daearyddiaeth arfaethedig ar gyfer y Cyfrifiad. Mae'r polisi daearyddiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar gynlluniau i gynnal ardaloedd daearyddol bach - Ardaloedd Cynnyrch, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol, ond mae hefyd yn nodi newid yn y dull o gynhyrchu cynhyrchion wardiau a phlwyfi. Mae hefyd yn nodi cynlluniau i gynhyrchu cynhyrchion daearyddiaeth a gwasanaethau i gefnogi'r cyfrifiad. Mae'n dymuno rhoi cyfle i ddefnyddwyr y cyfrifiad wneud sylwadau a helpu i siapiau eu cynlluniau drwy'r ymarfer ymgynghori hwn.

Mae'r [ymgynghoriad ar gael ar-lein](#) a bydd yn para rhwng 5 Tachwedd 2020 a 18 Rhagfyr 2020 (Saesneg yn unig). Fel rhan o'r ymgynghoriad, ceir dogfen ymgynghori ategol sy'n nodi'r polisi daearyddiaeth arfaethedig ar gyfer cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr, a'r cynhyrchion daearyddiaeth a gwasanaethau arfaethedig i gefnogi'r cyfrifiad. Byddai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar eu cynigion.

Mudo rhyngwladol hirdymor

Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ddiweddar fod [Adroddiad Chwarterol Ystadegau Mudo: Tachwedd 2020](#) wedi'i ganslo. Yn dilyn atal yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol yn sgil y pandemig COVID-19, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wrthi'n llunio ystadegau mudo rhyngwladol yn seiliedig ar ffynonellau data gweinyddol eraill.

Mae'r amcangyfrifon mudo newydd hyn wrthi'n cael eu llunio ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y diweddariad [diweddaraf ar drawsnewid y system ystadegau mudo a phoblogaeth](#)

Mae erthygl ar wahân yn casglu amrywiaeth o ffynonellau data ynghyd [ar batrymau symudedd a mudo rhyngwladol ers pandemig y coronafeirws \(COVID-19\)](#).

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd wedi cyhoeddi [ystadegau terfynol ar fudo rhyngwladol hirdymor yn y DU ar gyfer 2019](#).

Y Gymraeg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg o grwpiau cymunedol Cymraeg yng Nghymru yn ddiweddar, gyda'r nod o ddeall yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar eu gweithgareddau. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ddydd Iau, 10 Rhagfyr.

Manylion cyswllt

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru